**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 886 (Cy.101)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswydd i awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau a llunio cynllun perfformiad gwerth gorau (yn y Gorchymyn hwn fe'u gelwir yn "gynlluniau gwella") ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Rhaid i awdurdodau yng Nghymru (ac eithrio awdurdod a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf) adolygu eu holl swyddogaethau (yn y Gorchymyn hwn fe elwir adolygiad o'r fath yn "ddadansoddiad awdurdod cyfan") o fewn cyfnod penodol sydd i'w bennu mewn Gorchymyn sydd i'w wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i awdurdodau gyhoeddi eu cynlluniau gwella ar gyfer blynyddoedd ariannol penodol cyn y dyddiad a gaiff ei bennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Orchymyn. Rhaid i archwilwyr anfon copïau o'u hadroddiadau sy'n ymwneud â chynlluniau gwella o'r fath at yr awdurdodau perthnasol, y Comisiwn Archwilio ac, os yw'n ofynnol, at Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn y dyddiad a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r cyfnod ar gyfer cynnal adolygiadau. Mae'r Gorchymyn hefyd yn pennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyhoeddi cynlluniau awdurdodau ar gyfer blynyddoedd ariannol penodol a'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid anfon copïau o adroddiadau archwilwyr. Mae'r Gorchymyn hwn yn disodli Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 886 (W.101)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) Order 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Part I of the Local Government Act 1999 imposes duties on local and other authorities to conduct best value reviews of their functions and to prepare a best value performance plan (in this Order called an "improvement plan") for each financial year.

The period within which an authority in Wales (except one specified in section 1(1)(d) and (e) of the Act) is to review all its functions (in this Order called a "whole authority analysis") is to be specified by Order made by the National Assembly for Wales. The National Assembly for Wales may also specify by Order the date before which an authority must publish its improvement plan for a financial year and the date by which copies of an auditor's report relating to that plan shall be sent to the authority, the Audit Commission and, if required, the National Assembly for Wales.

This Order specifies the review period, the date before which an authority's plan for a financial year must be published and the date by which copies of an auditor's report are to be sent. It replaces the Local Government (Best Value) (Reviews and Performance Plans) (Wales) Order 2000, which is revoked, and should be read in conjunction with the guidance

Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000, sy'n cael ei ddiddymu, a dylid darllen y Gorchymyn hwn ar y cyd â'r canllawiau a elwir "Wales Programme for Improvement: Guidance for Local Authorities" a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

entitled "Wales Programme for Improvement: Guidance for Local Authorities" issued by the National Assembly for Wales.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 886 (Cy.101)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *27 Mawrth 2002* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**a**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ac mae'n dod i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf;

ystyr "dadansoddiad awdurdod cyfan" ("*whole authority analysis*") yw adolygiad gwerth gorau o holl swyddogaethau awdurdod gwerth gorau o fewn yr ystyr a briodolir i "best value reviews" yn adran 5 o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r awdurdodau hynny a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

**Cyfnod cynnal dadansoddiadau**

**2**. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan erbyn 30 Mehefin 2003 a rhaid iddynt gynnal dadansoddiad awdurdod cyfan pellach cyn diwedd pob cyfnod o bum mlynedd wedi hynny.

(a) 1999 p.27.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 886 (W.101)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) Order 2002

| | |
|---|---|
| *Made* | *27th March 2002* |
| *Coming into force* | *1st April 2002* |

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by sections 5(2), 6(3), 7(6) and 29(1) of the Local Government Act 1999(**a**):

**Name, commencement, interpretation and application**

**1**.-(1) The name of this Order is the Local Government (Whole Authority Analyses and Improvement Plans) (Wales) Order 2002 and it shall come into force on 1st April 2002.

(2) In this Order -

"improvement plan" ("*cynllun gwella*") means a best value performance plan within the meaning of section 6(1) of the Act;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Local Government Act 1999; and

"whole authority analysis" ("*dadansoddiad awdurdod cyfan*") means a best value review of all of a best value authority's functions within the meaning of section 5 of the Act.

(3) This Order applies to best value authorities in Wales with the exception of those specified in section 1(1)(d) and (e) of the Act.

**Period of analyses**

**2.** Best value authorities must conduct a whole authority analysis by 30th June 2003 and must conduct a further whole authority analysis by the end of each subsequent period of five years.

(a) 1999 c.27.

**Dyddiad cyhoeddi cynlluniau gwella**

**3**. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella ar gyfer blwyddyn ariannol benodol erbyn 30 Mehefin yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

**Y dyddiad ar gyfer anfon copïau o adroddiadau archwilwyr**

**4**. Yn unol ag adran 7(5) o'r Ddeddf, rhaid anfon copïau o adroddiad archwilydd ynglyn â chynllun gwella erbyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

**Diddymu**

**5.** Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000(**a**) drwy hyn yn cael ei ddiddymu.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

27 Mawrth 2002

Prif Weinidog y Cynulliad Cenedlaethol

(a) O.S. 2000/1271 (Cy. 97).

(b) 1998 p.38.

**Date for publication of improvement plans**

**3**. Best value authorities must publish their improvement plan for a financial year by 30th June of the year to which the plan relates.

**Date for sending copies of auditors' reports**

**4**. Copies of an auditor's report relating to an improvement plan shall be sent in accordance with section 7(5) of the Act by 31st October of the year to which the plan relates.

**Revocation**

**5**. The Local Government (Best Value) (Reviews and Performance Plans) (Wales) Order 2000(**a**) is hereby revoked.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**).

27th March 2002

*Rhodri Morgan*

The First Minister of the National Assembly

(a) S.I. 2000/1271 (W. 97).

(b) 1998 c.38.

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090468-0

9 780110 904689

**£1.75**

W0065/04/02 ON